


RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
36/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
16 EBRILL 2016

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 1, 2016



Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 1, Pasg 2016

Anthony Lydall, *Strategic Marketing*



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Dr. Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth,

robert.lewis@wales.gsi.gov.uk

Harry Corin, Swyddog Ymchwil,

harry.corin2@wales.gsi.gov.uk

Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystâd Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Drwydded y Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. Prif ganfyddiadau	2
2. Cefndir a Methodoleg.....	3
3. Perfformiad dros y Pasg.....	5
4. Perfformiad y flwyddyn hyd yn hyn.....	10
5. Disgwyliadau a Hyder ar gyfer yr Haf.....	12
6. Twristiaeth ar Lefel Ranbarthol a Lleol.....	15

1. PRIF GANFYDDIADAU

Pasg Cynnar wedi rhoi her i'r diwydiant twristiaeth

- 1.1 Cafodd oddeutu un o bob pump (21%) o'r busnesau a samplwyd fwy o ymwelwyr nag a gafwyd yn ystod y Pasg y llynedd, a chafodd dau arall o bob pump (41%) oddeutu'r un lefel â'r llynedd. Fodd bynnag, cafodd traean y busnesau (34%) lai o ymwelwyr.
- 1.2 O'r rhai a gafodd lai o ymwelwyr, dywed dros eu hanner mai'r tywydd sy'n gyfrifol, ac mae bron i hanner y busnesau (45%) yn dweud mai'r Pasg cynnar sy'n gyfrifol. Dengys y cam ymchwil hwn, a chmau ymchwil blaenorol sy'n dyddio'n ôl i 2005 pan gafodd y baromedr ei gychwyn am y tro cyntaf, nad yw gweithredwyr twristiaeth yn gyffredinol yn hoff o weld y Pasg yn digwydd ym mis Mawrth. Mae'n aml yn golygu tywydd oerach, neu'r disgwyliad o dywydd oerach.

Atyniadau a bwytai / tafarndai / caffis yw'r sectorau sy'n perfformio orau

- 1.3 Mae'r sectorau nad ydynt yn sectorau llety wedi cael Pasg dipyn yn well na'r sectorau llety. Mae oddeutu chwarter (26%) yr atyniadau wedi cael mwy o ymwelwyr na'r llynedd, o'i gymharu â chyfran debyg (31%) a gofnododd ostyngiad. Dengys rhai sylwadau agored bod y tywydd a/neu wlyb yn ffafrio atyniadau o dan do.
- 1.4 Cafodd ychydig dros chwarter (28%) y bwytai / tafarndai / caffis fwy o dwristiaid yn gwsmeriaid nag a gafwyd y Pasg diwethaf, a chafodd gyfran debyg (30%) lai.
- 1.5 O'i gymharu, dim ond un o bob pump (19%) y gweithredwyr llety a gafodd fwy o ymwelwyr y Pasg hwn, o'i gymharu ag oddeutu traean (35%) a welodd ostyngiad.

Cyfnod heriol dros y Pasg wedi effeithio ar bob rhanbarth yng Nghymru

- 1.6 Nid yw'r gwahaniaethau mewn perfformiad ar draws gwahanol ranbarthau Cymru yn sylweddol ar y cyfan, gan fod y Pasg cynnar a'r tywydd cysylltiedig wedi effeithio pob ardal.

Rhagolwg cadarnhaol ar gyfer yr haf

- 1.7 Mae llawer o weithredwyr (38%) yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr yr haf hwn na'r haf diwethaf, ac mae dau arall o bob pump (42%) yn disgwyl cael yr un faint. Dim ond lleiafswm (9%) sy'n disgwyl cael llai, ac nid yw'r gweddill (11%) yn gwybod beth i'w ddisgwyl.
- 1.8 Mae'r hwyliau'n arbennig o gadarnhaol yn y sector atyniadau, gyda'r mwyafrif (58%) yn disgwyl bod yn fwy prysur eleni, ac ymysg bwytai / tafarndai / caffis, gydag oddeutu eu hanner (47%) yn disgwyl mwy o ymwelwyr yn gwsmeriaid.

2. CEFNDIR A METHODOLEG

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 2.1 Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi ei gynllunio i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi bod yn rhedeg ar amrywiol ffurfiau ers 2005, ac arferir cynnal rhwng dau a phump 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 2.2 Mae'r don ymchwil hon yn ymwneud â Phasg 2016, gyda mesuriadau perfformiad gwahanol farchnadoedd yn y flwyddyn hyd yn hyn a disgwyliadau ar gyfer tymor yr haf sydd ar ddod. Mae cwestiynau ad hoc am aelodaeth ac ymwybyddiaeth o gymdeithasau twristiaeth a phartneriaethau rheoli cyrchfan lleol wedi eu cynnwys yn y cam hwn hefyd.

Sut y cynhelir yr Arolwg?

- 2.3 Am y tro cyntaf, mae'r Arolwg hwn wedi bod ar gael i'w lenwi ar-lein. Mae ateb dros y ffôn yn ddewis arall, a hwnnw oedd yr unig ddull a ddefnyddiwyd cyn hyn.
- 2.4 Rydym wedi cynnal 802 o gyfweiliadau dros y ffôn, ac mae'r arolwg ar-lein a ddosbarthwyd yn ôl ardal a phartneriaid sector wedi cynhyrchu 41 ymateb arall. Mae'r sampl cyfan o 843 yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.4\%$.
- 2.5 Mae'r sampl o 843 ymateb yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De Orllewin	De Ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	64	56	74	69	263
Llety hunan arlwy	73	53	88	40	254
Maes carafanau / pebyll	52	24	40	5	121
Hostelau	6	6	4	2	18
Atyniadau	43	23	37	36	139
Bwytai / tafarndai / caffis	10	8	11	19	48
Cyfanswm	248	170	254	171	843


- 2.6 Mae oddeutu hanner y sampl (51%) wedi eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd ac mae'r gweddill (49%) heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffes wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaeth ar draws

gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu hymwelwyr (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

- 2.7 Mae pob cyfweiliad dros y ffôn wedi ei gynnal gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 29 Mawrth a 5 Ebrill. Cynhwysir copi o'r holiadur fel atodiad.

3. PERFFORMIAD DROS Y PASG

PERFFORMIAD YN ÔL SECTOR



Mae'r Pasg cynnar wedi rhoi her i'r diwydiant twristiaeth

- 3.1 Mae oddeutu un o bob pum busnes (21%) yn y sampl wedi cael mwy o ymwelwyr nag a gafwyd yn ystod y Pasg y llynedd, ac mae dau arall o bob pump (41%) wedi cael lefel debyg. Fodd bynnag, mae un rhan o dair o'r busnesau (34%) wedi cael llai o ymwelwyr.
- 3.2 Dengys y cam ymchwil hwn, a chamau ymchwil blaenorol sy'n dyddio'n ôl i 2005 pan gychwynnwyd y baromedr, nad yw'r diwydiant twristiaeth yn hoffi gweld y Pasg yn digwydd ym mis Mawrth yn gyffredinol. Mae'n arwain yn arwain at dywydd oerach, neu'r disgwyliad o dywydd oerach.

"Mae Pasg cynnar a thywydd sâl yn golygu Pasg sâl"
Atyniad, Canolbarth Cymru

Atyniadau a bwytai / tafarndai / caffis yw'r sectorau yn perfformio orau

- 3.3 Mae'r sectorau nad ydynt yn sectorau llety wedi cael Pasg gwell na'r sectorau llety. Un eglurhad yw mai ymwelwyr dydd i'r ardal yw eu cwsmeriaid (ymwelwyr).

"Rydym ni wedi gweld bod y tywydd a'r Pasg cynnar wedi golygu nad yw pobl yn cymryd y risg o drefnu gwyliau, ond eu bod wedi disgwyl er mwyn mynd ar dripiâu dydd"

Atyniad, Gogledd

- 3.4 Eglurhad pellach yn y sector atyniadau yw ei bod yn ymddangos bod atyniadau dan do wedi elwa o dywydd oer a gwlyb


“Roedd y tywydd garw ar ddydd Sadwrn y Pasg yn golygu ein bod ni wedi cael llawer o ymwelwyr”

Atyniad, Gogledd

“Mae tywydd sâl yn helpu ein hatyniad”

Atyniad, Gogledd

PERFFORMIAD YN ÔL RHANBARTH




Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth ddim yn arwyddocaol ar y cyfan

- 3.5 Nid yw'r gwahaniaeth rhwng perfformiad gwahanol ranbarthau Cymru yn arwyddocaol ar y cyfan, gan fod y Pasg cynnar a'r tywydd cysylltiedig wedi effeithio ar bob ardal.
- 3.6 Mae De Orllewin Cymru wedi cael Pasg arbennig o heriol, gydag un o bob pum busnes (19%) yn cynyddu nifer eu hymwelwyr ond dau o bob pump (41%) yn gweld gostyngiad.

“Siomedig iawn”

Hunan-arlwy, De Orllewin

RHESYMAU DROS LEFELAU UWCH O YMWELWYR



Amrywiaeth o resymau dros y cynnydd yn lefel yr ymwelwyr

3.7 Mae'r rhesymau a roddwyd dros y lefel uwch o ymwelwyr nag a gafwyd yn ystod y Pasg y llynedd yn amrywio, ac nid oes un rheswm unigol yn sefyll allan. Mae llawer o'r rhesymau a roddwyd yn benodol i amgylchiadau busnes unigol.

3.8 Mae rhai (16%) yn priodoli eu llwyddiant i'w hymdrechion marchnata eu hunain.

"Roeddem ni'n llawn dros y Pasg. Rydym ni wedi gwneud llawer o waith marchnata a gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi gweithio'n dda. Dim ond y llynedd y gwnes i ymuno ond hyd yn hyn rydym ni wedi torri pob record o ran niferoedd yr ymwelwyr i'r parc."

Parc carafanau, Gogledd

"Roedd pob un o'n hymwelwyr [dros y Pasg] yn anabl. Rydym ni'n hyrwyddo mynediad fel offeryn marchnata ac mae pobl yn dod yma oherwydd hynny."

Hunan-arlwyio, De Orllewin

"Mae creu ein gwefan y llynedd a rhaglen newydd wedi cynyddu diddordeb a niferoedd yr ymwelwyr o Ewrop a Gogledd America"

Atyniad, Gogledd

Mae 'Tywydd gwell' mewn rhai achosion yn golygu 'gwell ar gyfer atyniadau dan do'


3.9 Atyniadau dan do yw rhai o'r busnesau a atebodd 'tywydd gwell', sy'n dweud bod tywydd sâl wedi bod yn fanteisiol iddynt.

Pencampwriaethau hanner marathon y byd yng Nghaerdydd

3.10 Mae rhai (8%) o'r gweithredwyr sydd wedi bod yn fwy prysur dros y Pasg yn dweud mai 'digwyddiadau yn yr ardal' yw'r rheswm. Yn Ne Ddwyrain Cymru, roedd un o bob pump (22%) o'r rhai sydd wedi bod yn brysur yn rhoi'r rheswm hwn. Roedd rhai busnesau'n crybwyll pencampwriaethau hanner marathon y byd yng Nghaerdydd, a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn y Pasg.

"Fe wnaeth pencampwriaethau hanner marathon y byd helpu"
Llety â gwasanaeth, De Ddwyrain

RHESYMAU DROS LEFELAU GOSTYNGEDIG O YMWELWYR



Pasg Cynnar a thywydd sâl - mae'r ddau brif reswm yn gysylltiedig

3.11 Fel y trafodwyd, nid yw gweithredwyr twristiaeth yn hoffi gweld y Pasg yn digwydd ym mis Mawrth, gan ei fod yn golygu'n aml nad yw'r tywydd gystal, neu nad oes disgwyl i'r tywydd fod yn dda ac felly bod darpar gwsmeriaid yn osgoi trefnu ymlaen llaw.

“O brofiad y gorffennol, pan fo'r Pasg yn gynnar, mae'r archebion yn is”

Llety â gwasanaeth, De Orllewin

*“Roedd y tywydd yn sâl ac o ganlyniad, dim ond am un diwrnod dros gyfnod y Pasg
yr oeddem ni ar agor”*

Atyniad, De Orllewin

Meysydd gwersylla dan ddŵr

3.12 Mae'r sector carafanau a gwersylla'n dibynnu'n arbennig ar y tywydd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r meysydd carafanau a phebyll (80%) a gafodd lai o ymwelwyr mai'r tywydd oedd yn gyfrifol.

“Fe wnaeth y tywydd ein gorffen ni eleni. Roedd yn fethiant llwyr.”


Parc carafanau, Canolbarth

*“Rydym ni i lawr o 50%. Mae'r caeau wedi bod mor wlyb nes ein bod ni wedi gorfod
tynnu'r carafanau i mewn. Ffoniodd llawer o bobl i ddweud eu bod yn dod ond
wnaethon nhw ddim dod.”*

Parc carafanau, Canolbarth

4. PERFFORMIAD Y FLWYDDYN HYD YN HYN

PROFFIDIOLDEB



Ymddengys bod proffidoldeb hyd yn hyn yn y diwydiant yn is ar y cyfan

- 4.1 Mae un o bob pum gweithredwr (21%) yn dweud bod proffidoldeb eleni yn uwch na phroffidoldeb y llynedd, ond mae cyfran uwch (28%) yn dweud ei fod yn is. Atyniadau yw'r unig sector lle mae mwy o weithredwyr yn dweud bod proffidoldeb yn uwch yn hytrach nag is.


"Mae ein proffidoldeb yn uwch - mae hynny am inni newid y ffordd y rhedir ein busnes, nid am ein bod ni wedi cael mwy o ymwelwyr"

Llety â gwasanaeth, Canolbarth

"Mae'r elw wedi cynyddu gan ein bod ni wedi cael mwy o bobl ar wyliau byr na phobl sy'n aros am wythnos - sy'n fwy o waith ond yn fwy o arian"

Hunan-arlwy, Gogledd

PERFFORMIAD YN ÔL Y FARCHNAD YN Y FLWYDDYN HYD YN HYN



Mae ymatebwyr nad ydynt yn cael ymwelwyr o farchnad benodol fel arfer nac yn gwybod perfformiad marchnad wedi eu heithrio o'r canlyniadau ar gyfer y farchnad honno. O'r herwydd, mae sail y canlyniadau'n amrywio yn ôl y farchnad.

Cychwyn cadarn i'r flwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o'r marchnadoedd - rhy gynnar i ddweud mewn rhai achosion

- 4.2 Lefelau ymwelwyr hyd yn hyn yn sefydlog i raddau helaeth. Rhai gweithredwyr yn dweud ei bod yn rhy gynnar i wybod pa fath o flwyddyn sydd ar y gweill mewn perthynas â rhai marchnadoedd, gan mai yn hwyrach yn y flwyddyn y bydd rhai ymwelwyr yn dechrau dod.

"Dydy ymwelwyr sy'n dod o Ewrop ac ymhellach i ffwrdd ddim yn dod i'r darlun tan yn hwyrach yn y tymor ar y cyfan"

Hunan-arlwy, Canolbarth

"Fyddwn ni ddim yn cael ymwelwyr o dramor tan yr haf mewn gwirionedd"


Llety â gwasanaeth, Gogledd

Nifer cynyddol o ymwelwyr o'r DU yng Nghanolbarth a De Ddwyrain Cymru

- 4.3 Mae Canolbarth Cymru a De Ddwyrain Cymru wedi perfformio'n well ym marchnad y DU hyd yn hyn eleni. Mae un o bob pedwar (25%) gweithredwr yn y Canolbarth wedi gweld mwy o ymwelwyr o'r DU (o du allan i Gymru) hyd yn hyn eleni, o'i gymharu â lleiafrif (13%) sydd wedi cael llai.
- 4.4 Yn yr un modd yn Ne Ddwyrain Cymru, mae tua chwarter (24%) y gweithredwyr wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r DU, o'i gymharu â lleiafrif (15%) a welodd ostyngiad.

5. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HAF

DISGWYLIADAU YN ÔL SECTOR



Rhagolwg cadarnhaol ar gyfer yr haf

- 5.1 Mae llawer (38%) o weithredwyr yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr yr haf hwn na'r haf diwethaf, ac mae dau arall o bob pump (42%) yn disgwyl cael yr un lefel.
- 5.2 Mae'r hwyliau'n arbennig o gadarnhaol yn y sector atyniadau, gyda'r mwyafrif (58%) yn disgwyl bod yn brysurach yr haf yma, ac ymysg bwytaï / tafarndai / caffis, gydag oddeutu eu hanner (47%) yn disgwyl mwy o gwsmeriaid sy'n dwristiaid. Mae rhai atyniadau awyr agored yn cyfaddef eu bod yn dibynnu ar y tywydd, ond maent yn gwneud popeth o fewn eu gallu er mwyn gwella eu cynnyrch er mwyn gwrthbwysu hyn.

"Mae'n dibynnu'n fawr ar y tywydd ond rydym ni wedi buddsoddi llawer yn y busnes felly rydym ni'n hyderus"

Atyniad, Gogledd

"Byddwn un ai'n cael yr un faint neu fwy o ymwelwyr, yn ddibynnol ar y tywydd"

Atyniad, Gogledd


"Ar hyn o bryd, rydym ni'n gwrthod pobl ar gyfer tymor yr haf, a rhai rhannau o fis Medi hefyd"

Parc carafanau, Gogledd

"Ar hyn o bryd, mae gennym ni swm anferth o archebion ar gyfer yr haf"

Llety â gwasanaeth, Gogledd

HYDER YN ÔL SECTOR



Edrych ymlaen at dymor yr haf

5.3 Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr yn edrych ymlaen at dymor yr haf yn hyderus. Dywed rhai mai archebion gwell sy'n gyfrifol am hyn, a'r ffaith bod ymwelwyr yn trefnu ymhellach ymlaen llaw.

"Mae archebion yn cael eu gwneud ar lawer llai o rybudd na'r blynyddoedd blaenorol"
Hunan-arlwy, De Orllewin

"Rydym ni wedi cael mwy o archebion ymlaen llaw nag a gawsom ni'r llynedd yn barod"
Atyniad, Gogledd

Mae ymwelwyr dychwel yn aml yn sail i hyder busnesau, yn enwedig yng Ngogledd Cymru

5.4 Mae gan Gogledd Cymru gyfran llawer uwch o weithredwyr (43%) sy'n dweud eu bod yn 'hyderus iawn' ynglŷn â'r haf o'i gymharu â gweddill Cymru (24%). Mae rhai o weithredwyr Gogledd Cymru yn dweud bod cwsmeriaid dychwel sy'n dal i ddod yn ôl yn gymorth i'w busnesau.


"Rydym ni mor llawen â'r gog; rydym ni'n cael llawer o fusnes dychwel"
Parc carafanau, Gogledd

*"Mae 60 - 70% o fy musnes yn dod gan westeion dychwel, ac maen nhw'n trefnu
flwyddyn ymlaen llaw, yn enwedig ar gyfer gwyliau'r haf"*
Hunan-arlwy, Gogledd

*"Roeddwn i'n hollol lawn y llynedd oherwydd archebion ymlaen llaw ac mae'r haf hwn
yr un fath. Rydw i'n cael dipyn go lew o archebion dychwel."*
Hunan-arlwy, Gogledd

6. TWRISTIAETH AR LEFEL RANBARTHOL A LLEOL


YMWYBYDDIAETH O GYMDEITHASAU TWRISTIAETH



Ymwybyddiaeth uwch yn Ne Orllewin Cymru

- 6.1 Yn gyffredinol, mae dwy ran o dair (67%) o'r gweithredwyr yn ymwybodol o gymdeithas dwristiaeth sy'n gweithredu yn eu hardal. Gweithredwyr y De Orllewin yw'r rhanbarth sydd â'r gyfran uchaf (76%) o ymwybyddiaeth.
- 6.2 Mae'r ymwybyddiaeth yn eithaf cyson ar draws gwahanol sectorau'r diwydiant, ond mae'n is (56%) ymysg bwytai / tafarndai / caffis.

AELODAETH O GYMDEITHASAU TWRISTIAETH



Yn Ne Orllewin Cymru mae'r aelodaeth uchaf hefyd

- 6.3 Yn ogystal â'r ymwybyddiaeth uchaf o gymdeithasau twristiaeth lleol, yn Ne Orllewin Cymru hefyd y gwelir y gyfran uchaf (65%) o'r aelodaeth ymysg y rhai sy'n ymwybodol hefyd.
- 6.4 Pan ail-seilir hyn ar holl ymatebwyr yr arolwg, mae hanner y busnesau a gafodd eu cyfweld yn Ne Orllewin Cymru yn aelodau o gymdeithas dwristiaeth. Mae hyn yn llawer uwch na Gogledd Cymru (39%), Canolbarth Cymru (34%) a De Ddwyrain Cymru (26%).

Busnesau'r sector atyniadau yw'r busnesau sydd fwyaf tebygol o fod yn aelodau


- 6.5 Ymysg sectorau'r diwydiant, busnesau'r sector atyniadau (49% o'r sampl cyfan) sydd fwyaf tebygol o fod yn aelodau o gymdeithas dwristiaeth, a bwytai / tafarndai / caffis (10%) sydd leiaf tebygol (er bod pob un o fusnesau'r sector hwn a gafodd eu cyfweld mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid). Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y mathau o lety.

Pa gymdeithasau y mae busnesau'n aelodau ohonynt?

- 6.6 Yr atebion a roddwyd amlaf yn ôl rhanbarth yw:

Rhanbarth	Aelodaeth fwyaf poblogaidd (amlder yr atebion a roddwyd)
Gogledd	Twristiaeth Gogledd Cymru (40 o ymatebwyr), Cymdeithas Lletygarwch Llandudno (13)
Canolbarth	Twristiaeth Canolbarth Cymru (10), Twristiaeth Bannau Brycheiniog (8)
De Orllewin	Twristiaeth Sir Benfro (39), Cymdeithas Dwristiaeth Sir Gaerfyrddin (37), Twristiaeth Bae Abertawe (19)
De Ddwyrain	Cymdeithas Dwristiaeth Bro Morgannwg (7), Cymdeithas Dwristiaeth y Fenni Cymdeithas Dwristiaeth y Fenni a'r Cylch (7)

RHESYMAU DROS BEIDIO AG YMAELODI



Gofynnwyd C14 i'r rhai sy'n ymwybodol o gymdeithas dwristiaeth sy'n gweithredu yn eu hardal ond nad ydynt yn aelod o unrhyw gymdeithas dwristiaeth

Dim wedi meddwl am y peth na theimlo bod angen

- 6.7 Dywed chwarter (25%) y gweithredwyr sy'n ymwybodol o gymdeithas dwristiaeth leol, ond nad ydynt yn aelod, nad ydynt wedi meddwl am ymuno erioed. Yn yr un modd, mae 23% arall yn credu eu bod yn 'gwneud yn iawn' fel ag y maent a dywed 17% nad ydynt yn gwybod beth fyddai i'w elwa o ymaelodi. Ymddengys fod rhai busnesau'n cymharu aelodaeth â chymdeithas gydag asiantaethau archebu.

"Roeddem ni'n aelodau ond fe roesom ni'r gorau i'n haelodaeth y llynedd ac rydym ni wedi mynd am asiantaeth ar-lein, sydd yn llenwi'r ystafelloedd."

Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Rydym ni'n eithaf agos at fusnesau eraill yn lleol ac rydym ni'n tueddu i helpu ein gilydd"

Llety â gwasanaeth, Canolbarth


'Dim yn berthnasol i'n sector ni'

- 6.8 Mae rhai (7%) o'r farn nad yw cymdeithasau'n berthnasol i'w sector hwy. Mae hyn yn gyffredin ymysg bwytaï / caffis / tafarndai (18% yr ymatebwyr yn y sector hwn) ond mae'r argraff hon hefyd i'w gweld ymysg busnesau llety.

"Mae'n fwy perthnasol i westai nag i fusnesau fel ein busnes ni. Rwy'n meddwl eu bod nhw braidd yn clici."


Llety â gwasanaeth, Gogledd

YMWYBYDDIAETH O FFORYMAU TWRISTIAETH RHANBARTHOL A CHYNLLUNIAU RHEOLI CYRCHFANNAU LLEOL



Ymwybyddiaeth o fforymau twristiaeth rhanbarthol yn brin


6.9 Ychydig dros draean (37%) y gweithredwyr sy'n ymwybodol o'r fforwm dwristiaeth ar gyfer eu rhanbarth. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn ymwybyddiaeth y pedwar rhanbarth, sydd i'w weld ar y siart uchod.



Ymwybyddiaeth o bartneriaethau rheoli cyrchfan yn brin

- 6.10 Mae tua chwarter (24%) y gweithredwyr yn ymwybodol o'u partneriaeth rheoli cyrchfan lleol. Mae'r ymwybyddiaeth rhywfaint yn uwch yn Ne Cymru, fel y dangosir ar y siart uchod.
- 6.11 Ar y pwynt hwn yn ystod y cyfveliadau ffôn, roedd yn dod yn amlwg bod llawer o ddryswch yn y diwydiant rhwng 'cymdeithasau twristiaeth', 'fforymau twristiaeth' a 'partneriaethau rheoli cyrchfan lleol'.

HYGYRCHEDD GWYBODAETH




Gofynnwyd C16 i'r rhai sy'n ymwybodol un ai o'u fforwm dwristiaeth ranbarthol neu o'u partneriaeth rheoli cyrchfan

Teimlwyd bod y wybodaeth yn hygyrch gan amlaf

- 6.12 Ymysg y rhai sy'n ymwybodol o'u fforwm dwristiaeth ranbarthol neu eu partneriaeth rheoli cyrchfan lleol, mae dau o bob tri (69%) yn teimlo ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth gan y grwpiau hyn. Nid yw rhai ymatebwyr yn pryderu'n ormodol ynglŷn â chael gwybodaeth, sy'n egluro'r gyfran eithaf uchaf (17%) o atebion 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn.

CYFLE I DDYLANWADU AR DWRISTIAETH YN LLEOL



Teimlir bod y cyfle i gymryd rhan mewn a dylanwadu ar dwristiaeth yn lleol yn eithaf prin

6.13 Mynegodd yr ymatebwyr amrywiaeth o farn ar faint o gyfle sydd ganddynt i ddylanwadu ar dwristiaeth yn eu hardal. Roedd cyfran uchaf (16%) yr ymatebwyr a atebodd 'Ydw, yn sylweddol' yn dod o Dde Orllewin Cymru.

Mwy o atyniadau yn teimlo eu bod yn cael cyfle

6.14 Mae atyniadau'n wahanol iawn i'r sectorau eraill. Mae bron i chwarter yr atyniadau (22%) wedi ateb 'ydw, yn sylweddol' a bron eu hanner (45%) wedi ateb 'ydw, i ryw raddau'.

6.15 Mae hyn yn cymharu â 10% o'r ymatebwyr yn y sectorau eraill sy'n ateb 'ydw, yn sylweddol' a 37% yn ateb 'ydw, i ryw raddau'.

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ☐
- Llety hunan arlwyo ☐
- Maes carafannau / pebyll..... ☐
- Hostel ☐
- Atyniad ☐
- Cynnal gweithgaredd ☐
- Bwyt / tafarn / caffï..... ☐

C1 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?

- Do ☐
- Naddo ☐

C2 O gymharu â'r Pasg y llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael Pasg hwn?

- Yn fwy na'r llynedd..... ☐
- Tua'r un peth ag y llynedd..... ☐
- Yn llai na'r llynedd ☐
- Ddim yn gwybod ☐

C3 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? (Ticiwch bob un perthnasol)

- Tywydd gwell..... ☐
- Marchnata eich hun..... ☐
- Busnes dychwel ☐
- Adferiad economaidd ☐
- Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com)..... ☐
- Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwyo) ☐
- Argymhellion..... ☐
- Cynnydd mewn twristiaeth ☐
- Mwy o le / ystafelloedd..... ☐
- Digwyddiadau yn yr ardal ☐
- Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell ☐
- Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU ☐
- Mwy o ymwelwyr tramor ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- Arall..... ☐

Nodwch reswm / resymau eraill

C4 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? (Ticiwch bob un perthnasol)

- Tywydd..... ☐
Pasg cynnar..... ☐
Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr..... ☐
Problemau annisgwyl ☐
Hinsawdd economaidd ☐
Cystadleuaeth gref ☐
Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal ☐
Llai o ymwelwyr tramor ☐
Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU ☐
Ddim yn gwybod ☐
Arall..... ☐
Nodwch reswm / resymau eraill _____

C5 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidioldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

- I fyny ar y llynedd ☐
Tua'r un peth a llynedd ☐
I lawr ar y llynedd ☐
Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud ☐

C6 O edrych ar darddiad eich ymwelwyr, sut mae lefel y busnes hyd yn hyn eleni o bob un o'r marchnadoedd canlynol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

Os nad ydych chi yn derbyn ymwelwyr o farchnad benodol ar y rhestr isod, ticiwch 'amherthnasol' yn y golofn ddiwethaf.

	I fyny ar y llynedd	Tua'r un peth a llynedd	I lawr ar y llynedd	Ddim yn gwybod neu amherthnasol
Cymru	☐	☐	☐	☐
O fewn y DU tu allan Cymru	☐	☐	☐	☐
Iwerddon	☐	☐	☐	☐
Yr Almaen	☐	☐	☐	☐
Gwledydd eraill yn Ewrop	☐	☐	☐	☐
Gogledd America	☐	☐	☐	☐
Gweddill y byd	☐	☐	☐	☐

C7 Oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar berfformiad eich busnes dros y Pasg?

C8 Wrth edrych ymlaen at yr haf, sut ydych yn disgwyl nifer eich ymwelwyr i gymharu â haf diwethaf?

- I fyny ar haf diwethaf ☐
Tua'r un peth ag haf diwethaf ☐
I lawr ar haf diwethaf ☐
Ddim yn gwybod ☐

C9 Ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi ar gyfer tymor yr haf?

Hyderus iawn..... ☐

Eithaf hyderus..... ☐

Ddim yn hyderus iawn ☐

Ddim yn hyderus o gwbl ☐

Ddim yn gwybod ☐

Q10 Oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar eich disgwyliadau ar gyfer yr haf?

C11 A ydych yn ymwybodol o gymdeithas twristiaeth sy'n gweithredu yn eich ardal chi?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

C12 Ydych chi'n aelod o gymdeithas dwristiaeth?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

C13 Pa gymdeithas / gymdeithasau dwristiaeth ydych chi'n aelod o?

C14 A oes unrhyw reswm penodol pam nad ydych yn aelod o gymdeithas dwristiaeth?

(TICIWCH POB UN SY'N BERTHNASOL)

Heb feddwl am y peth..... ☐

Rydym yn gwneud iawn ar ein pennau ein hunain..... ☐

Ddim yn gweld beth y byddem yn ei gael allan ohono..... ☐

Dirwyn y busnes i lawr ☐

Anfodlon ynghylch y gost o aelodaeth..... ☐

Nid wyf erioed wedi cael cais i ymuno â..... ☐

Ddim yn gweld gwerth yn beth mae nhw'n ei wneud..... ☐

Ddim yn meddwl ei fod yn berthnasol i'n sector ☐

Arall..... ☐

Nodwch reswm / resymau eraill

C15 Ydych chi'n ymwybodol o:

	Ydw	Nac ydw
Fforwm twristiaeth ar gyfer eich rhanbarth?	☐	☐
Partneriaeth rheoli cyrchfan lleol yn eich ardal?	☐	☐

- C16 A yw gwybodaeth yn hawdd i'w gael gan y grwpiau hyn?
- Ydy, yn hawdd iawn ☐
- Ydy, yn weddol hawdd..... ☐
- Na, nid yw'n hawdd ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- C17 Ydych chi'n teimlo bod gennych y cyfle i gymryd rhan mewn a dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd mewn twristiaeth yn eich ardal chi?
- Ydw, yn sylweddol..... ☐
- Ydw, i ryw raddau ☐
- Nac Ydw ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- C18 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru / Visit Wales?
- Do ☐
- Naddo ☐